# PENNANT WALTERS



# Welcome to the consultation for Mynydd Llanhilleth onshore wind farm

# Croeso i`r ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer fferm wynt ar y tir Mynydd Llanhiledd.

Pennant Walters is proposing plans for a wind farm on a site at Mynydd Llanhilleth. The site sits on land east of Llanhilleth, Aberbeeg, and Six Bells, and west of Pontnewynydd.

Mae Pennant Walters yn cynnig cynlluniau ar gyfer fferm wynt ar safle ym Mynydd Llanhiledd. Saif y safle ar dir i'r dwyrain o Lanhiledd, Aber-big, a Six Bells, ac i'r gorllewin o Bontnewynydd.

This is our second phase of consultation on this project and we would like to thank everyone who took part in our early engagement consultation in July 2021. We received a great deal of useful feedback and have been considering this, alongside the outcome of further technical surveys and assessments to further develop our proposals.

We'd now like to invite you to take part in our formal 'statutory' consultation before we submit our application.

Dyma ail gam ein hymgynghoriad ar y prosiect hwn a hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran yn ein hymgynghoriad ymgysylltu cynnar ym mis Gorffennaf 2021. Cawsom lawer iawn o adborth defnyddiol ac rydym wedi bod yn ystyried hyn, ochr yn ochr â chanlyniad arolygon ac asesiadau technegol pellach i ddatblygu ein cynigion ymhellach.

Hoffem eich gwahodd yn awr i gymryd rhan yn ein hymgynghoriad 'statudol' ffurfiol cyn i ni gyflwyno ein cais.

## Reaching 'Net Zero'
## Cyrraedd 'Sero Net'

The delivery of reliable, renewable energy in Wales is a high priority. Further to the UK Government's ambition to achieve 'Net Zero' by 2050, the Welsh Government currently has targets to deliver 70% of Welsh electricity consumption via renewable means by 2030. Of this, the aspiration is to have at least 1GW within local ownership. As the cheapest form of energy generation in the UK, wind power has been proven to provide a value for money answer to the renewable energy generation challenge.

Welsh Government Targets:

- 70% of electricity consumption to be generated from renewable energy by 2030
- 1GW of renewable energy capacity to be locally owned by 2030
- All new renewable energy projects to have at least an element of local ownership from 2020

Mae cyflenwi ynni adnewyddadwy, dibynadwy yn flaenoriaeth uchel yng Nghymru. Ymhellach i uchelgais Llywodraeth y DU i gyflawni 'Sero Net' erbyn 2050, ar hyn o bryd mae gan Lywodraeth Cymru dargedau i ddarparu 70% o ddefnydd trydan Cymru trwy ddulliau adnewyddadwy erbyn 2030. Y dyheuad sy'n deillio o hyn yw i gael o leiaf 1GW o fewn perchnogaeth leol. Fel y ffurf rataf o gynhyrchu ynni yn y Deyrnas Unedig, mae ynni gwynt wedi profi ei fod yn cynnig datrysiad gwerth am arian i'r her o gynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Targedau Llywodraeth Cymru:

- Cynhyrchu 70% o drydan a ddefnyddir o ynni adnewyddadwy erbyn 2030
- 1GW o gapasiti ynni adnewyddadwy i fod mewn perchnogaeth leol erbyn 2030
- Pob prosiect ynni adnewyddadwy newydd i gael o leiaf elfen o berchnogaeth leol o 2020 ymlaen

## The planning process
## Y broses gynllunio

This project is deemed a Development of National Significance (DNS), meaning that we will need to apply to Planning and Environment Decisions Wales (PEDW), which will make a recommendation to Welsh Ministers with whom lies the final decision on whether to grant planning permission or not.

As part of the DNS process, we are required to prepare and submit a pre-application consultation (PAC) report detailing the consultation undertaken and how feedback has been taken into account for the project. Following our statutory consultation, we will prepare our application for submission to PEDW in early 2023, which will be supported by the PAC report.

Ystyrir bod y prosiect hwn yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) a rhaid i ni wneud cais i PEDW, a fydd yn gwneud argymhelliad i Weinidogion Cymru a wnaiff y penderfyniad terfynol ynghylch rhoi caniatâd cynllunio ai peidio.

Fel rhan o'r broses DNS mae'n ofynnol i ni baratoi a chyflwyno adroddiad ar yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio (PAC) yn manylu ar yr ymgynghoriad a gynhaliwyd a sut y mae adborth wedi'i ystyried ar gyfer y prosiect. Yn dilyn ein hymgynghoriad statudol, byddwn yn paratoi ein cais i'w gyflwyno i PEDW yn gynnar yn 2023, a fydd yn cael ei gefnogi gan adroddiad PAC.